



Annwyl Weinidog,

Ysgrifennaf er mwyn galw arnoch i gryfhau addysg Gymraeg ym mhob cornel o Gymru cyn diwedd y tymor Seneddol. Er mwyn cyflawni hyn, gofynnaf ichi: fabwysiadu Cod ar gyfer Addysgu'r Gymraeg ar Un Continwmm; roi cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru ddatblygu cymhwystrer Cymraeg cyfun; a chryfhau rheoliadau ysgolion gwledig.

Yn gyntaf, galwn ar y Llywodraeth i gefnogi gwelliant i Fil y Cwricwlwm fyddai'n creu Cod ar gyfer Addysgu'r Gymraeg ar Un Continwmm.

Rydym yn erfyn ar eich Llywodraeth i gefnogi'r gwelliant hwn i Fil y Cwricwlwm gan y byddai'n rhoi arweiniad clir i benaethiaid ac athrawon ar gyfer datblygu un rhaglen dysgu Cymraeg. Nid yw'r cwricwlwm mae'ch Llywodraeth wedi ei gyhoeddi yn sicrhau un llwybr dysgu Cymraeg, ond ymddengys yn hytrach fel ymgais i ail-frandio Cymraeg ail iaith. Byddai mabwysiadu'r Cod yn gyfle i unioni hyn ac yn sicrhau bod holl blant Cymru'n gadael ysgol yn hyderus yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Mae consensws ynghylch hyn ymhlith addysgwyr ar bob lefel, yn ogystal ag UCAC a Chomisiynydd y Gymraeg. Byddwch yn ymwybodol o safbwynt y Comisiynydd o'i lythyr at y Pwyllgor Addysg ac rydym yn rhannu ei bryderon:

“Nid oes dim wedi newid yn fy safbwynt bod angen cod statudol sy'n darparu arweiniad llawer cryfach o safbwynt continwmm y Gymraeg . . . Er hyn mae ymateb y Gweinidog yn awgrymu bod ‘fframwaith y Cwricwlwm newydd i Gymru’ eisoes yn cynnwys digon o fanylder a chyfarwyddyd o safbwynt addysgu'r Gymraeg. Rwyf yn anghytuno â hyn, ac nid wyf o'r farn bod fframwaith cyffredinol y cwricwlwm am symbylu'r newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni un o dargedau allweddol Cymraeg 2050, sef y bydd 50% o ddisgyblion y sector cyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.”

Fe'n siomwyd gan eich sylwadau mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ble gamgynrychioloch y gwelliant dros greu'r Cod. Pryderwn oni bai fod cod o'r fath yn cael ei greu, ni fydd un continwmm dysgu'r Gymraeg yn dod i fodolaeth, a bydd Cymraeg ail iaith mewn gwirionedd yn parhau. Dim ond un continwmm go iawn fydd yn codi safonau, sicrhau bod pawb yn gallu gadael yr ysgol yn rhugl ac yn galluogi'r Llywodraeth i gyflawni ei nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Yn ail, galwn arnoch i roi cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru ddatblygu cymhwyster Cymraeg cyfun.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae’ch Llywodraeth wedi pwysleisio ei hymrwymiad i gyflwyno un continwmm o addysg Gymraeg yng Nghymru — nawr mae angen ei wireddu. Mae angen i’r Llywodraeth gydnabod fod cael un continwmm yn golygu cael un cymhwyster: un cwricwlwm, un cymhwyster a chyfle cyfartal i bob disgybl yng Nghymru.

Nid yw Cymwysterau Cymru hyd yn oed yn cynnwys yr opsiwn o greu cymhwyster cyfunol Cymraeg yn eu [hymgyngghoriad cyfredol](#) ar y cymwysterau fydd yn cydynd â Chwricwlwm i Gymru, ac yn hytrach yn cynnig ail-frandio Cymraeg ail iaith. O ystyried pwysigrwydd creu un cymhwyster i’r broses o sefydlu un continwmm, mae bwriad Cymwysterau Cymru — sy’n gorff anetholedig — i beidio hyd yn oed ei gynnwys fel opsiwn yn eu hymgyngghoriad yn tansellio’r consensws gwleidyddol ac addysgol dros un continwmm dysgu’r Gymraeg. Galwn arnoch felly i roi cyfarwyddyd clir i Gymwysterau Cymru ddatblygu un cymhwyster cyfunol. Dyma’n union argymhellodd adolygiad yr Athro Sioned Davies yn ôl yn 2013, a dyma’r unig ffordd allwn ni sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol yn medru cyfathrebu a siarad Cymraeg yn hyderus.

Yn drydydd, galwn arnoch i gryfhau’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2017

Mae gan rai Awdurdodau Lleol ddehongliad cul iawn o ddiffiniad ac arwyddocâd yr ymadrodd "rhagdyb gweithdrefnol" o blaid ysgolion gwledig. I nifer o Awdurdodau, nid yw’n golygu fod yn rhaid cychwyn gyda rhagdyb o blaid cadw ysgolion gwledig a chynnig eu cau ond os bydd pob opsiwn arall yn amhosibl, ond yn hytrach fod y cymal yn ychwanegiad at y broses gweinyddol yn unig — hynny yw, fod yn rhaid mynd trwy ragor o gamau gweinyddol cyn gallu gweithredu’u bwriad gwreiddiol o ddymuno cau ysgol. Dylid diwygio’r geiriad i ollwng y gair “gweithdrefnol” er mwyn egluro mai’r ystyr yw fod yn rhaid i gyngor sir ddangos ei fod yn cychwyn gyda rhagdyb gwirioneddol o blaid cadw ysgol ar agor, ac yn ceisio pob dull o wireddu’r bwriad cyn cynnig ei chau. Dylid yn ogystal ailddiffinio criterion ‘ysgolion pentrefol’ gan fod y criterion presennol wedi creu rhestr anwadal amympwyol, ac yn gadael allan llawer o ysgolion mewn cymunedau pentrefol gwledig ac ôl-ddiwydiannol.

Mae hefyd angen symleiddio a chyflymu’r broses o apelio yn erbyn penderfyniad afresymol gan Awdurdod Lleol i gau ysgol. Awgrymwn y dylai fod hawl gan bersonau arbennig (fel bwrdd llywodraethol) gyflwyno apêl ar sail proses yn unig os na fydd Awdurdod wedi cadw at y Cod yn gywir. Byddai cyflwyno trefn apêl gan lywodraethwyr yn sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn gwneud mwy o ymdrech i gadw at ofynion y côd i gychwyn.

Mae cefnogi hawliau cyfartal a chwarae teg yn y maes addysg ac yn ehangach yn rhywbeth sydd, hyd yma, wedi diffinio'ch gyrfa wleidyddol; rydym yn erfyn arnoch i sicrhau eich gwaddol gwbl haeddiannol fel Gweinidog Addysg blaengar. **Gofynnwn i chi felly wneud popeth o fewn eich gallu i roi terfyn ar y sefyllfa gwbl anghyfiawn bresennol sy'n amddifadu 80% o'n plant o'u hawl i'r Gymraeg, ac i gefnogi mabwysiadu'r Cod, cyflwyno cymhwysyter cyfun Gymraeg a chryfhau rheoliadau ysgolion gwledig.**

Yr eiddoch yn gywir,

Mabli Siriol

Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith